

Y Ddolen

Papur

Bancyfelin, Cana, Elim, Heol Awst a'r Priordy



**Gofalaeth Caerfyrddin
a Bancyfelin**



**Dod i mi galon well bob dydd
a'th ras yn fodd i fyw
fel bo i eraill drwof fi
adnabod cariad Duw.**

Eifion Wyn (1867-1926)

Caneuon Ffydd: 681

**Rhifyn 6
PAPUR HYDREF 2026**

Gair gan ein Gweinidog

Cofio Sant Ffransis

YM mis Hydref eleni, bydd Ffransisgiaid ledled y byd yn dathlu **800 mlynedd ers marwolaeth Sant Ffransis o Assisi.**


Wedi'i eni i gyfoeth a breintiau, dewisodd **Sant Ffransis** lwybr radical o dlodi, heddwch a chariad at holl greadigaeth Duw. Bu'n byw trwy gardota yn ardal Assisi, yn trwsio eglwysi adfeiliedig a gofalu am wahangleifion.

Yn gynnar yn 1209. clywodd bregeth yn seiliedig ar Mathew 10:9, ble mae Iesu yn dweud wrth ei ddilynwyr am fynd allan heb arian, na hyd yn oed ffon gerdded. Newidiodd hyn ei fywyd. Dilynodd Ffransis y gorchymyn, gan deithio o le i le yn droednoeth yn pregethu edifeirwch. Cyn hir, ymunodd ei ddilynwyr cyntaf, Bernardo di Quintavalle, ag ef, ac ymhen blwyddyn roedd ganddo un ar ddeg o ddilynwyr. Aethant i Rufain i ofyn caniatâd Pab Innocentius III i ffurfio urdd grefyddol newydd. Gwrthododd y Pab, ond y noson honno cafodd freuddwyd ble gwelodd ddyn tlawd yn cynnal eglwys adfeiliedig rhag syrthio. Galwodd Ffransis yn ôl a newidiodd ei benderfyniad.

Tyfodd yr Urdd yn gyflym.

Wyth canrif yn ddiweddarach, mae ei dystiolaeth yn parhau i ysbrydoli Cristnogion sy'n ceisio byw ffydd ostyngedig, llawn gobaith a dewrder. Mae Sant Ffransis yn arbennig o adnabyddus ledled y byd heddiw oherwydd mai ef yw nawddsant yr amgylchedd.

Mae cysylltiad agos rhwng Urdd y Ffransisiaid a Chaerfyrddin. Roedd Y Brodyr Llwydion yn aelodau o'r Urdd Ffransisgaidd a gyrhaeddodd Gaerfyrddin yn ystod y 13 ganrif. Aethant ati i sefydlu mynachlog ychydig y tu allan i furiau canoloesol y dref ar y pryd, ar yr hyn sydd bellach yn safle ardal siopa Greyfriars. Mae'r murluniau hyfryd ger maes parcio'r hen Wilkinson yn atgoffa'r siopwyr o'r hanes. Mae gwaith archaeolegol wedi dangos bod hon ymhlith y mynachlogydd Ffransisgaidd taleithiol mwyaf ym Mhrydain.



Ar **ddydd Sul, 4 Hydref**, sef gŵyl Sant Ffransis, bydd aelodau lleol yr Urdd Ffransisgaidd, yn dathlu drwy gynnal **Taith Heddwch, Gobaith a Chymod** drwy dref Caerfyrddin. Gwahoddir pobl o bob eglwys leol, enwad, ffydd a'r rhai heb ffydd yn gynnes i ymuno â nhw.

BYDD y daith yn cychwyn o **Eglwys Sant Pedr am 2.00yp**, gan gerdded wedyn i hen safle'r Brodyr Llwydion yng nghanol y dref, ble bydd gweddïau a bendith gan yr Esgob Dorrien Davies. Yna byddant yn cerdded ymlaen i Neuadd Eglwys Crist i fwynhau cymdeithasu a lluniaeth, gan orffen tua 4:30yp. (Cofiwch fod yr Esgob yn pregethu yng Nghwrrdd Diolchgarwch Y Priordy am 5.00!).

Gweddi Sant Ffransis

Iôr, gwna fi'n offeryn dy hedd.

Lle bo difaterwch, boed i mi herio;

Lle bo cydymffurfio, boed i mi gwestiynu;

Lle bo tawelwch, boed i mi godi llais.

**Lle bo'n rhy gysurus a fawr ddim yn digwydd,
boed i mi gyffroi.**

**Lle bo drysau ar gau a chalonnau o dan glo,
Crea'r awydd i wrando.**

Pan fydd cyfreithiau'n deddfu a phoen yn cael ei anwybyddu...

Pan fydd llais traddodiad yn boddi cri angen....

**Boed i mi geisio gweithredu cyfiawnder yn hytrach na siarad
amdano;
Ior, aflonydda ni,**

I gadw cwmni l estroniaid, yn ogystal â bod yn gefnogol iddynt;

**I garu'r rhai sy'n anodd eu caru, ynghyd â'r rhai y gellir eu
caru'n rhwydd.
Iôr, gwna fi'n offeryn dy aflonyddwch.**

Amen





DARLLENIADUR



Mis Hydref	Darlleniad
Wythnos 1	Mathew 21:33-46
Wythnos 2	Mathew 22:1-15
Wythnos 3	Mathew 22:15-22
Wythnos 4	Mathew 22:34-46

YN DYMUNO NODDI'R DDOLEN?

CYSWLLT: PHILIP JONES (TRYSORYDD)

☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk

Gellir trosglwyddo cyfraniad i'r cyfrif isod gan nodi'ch enw a "papur" fel cyfeirnod:

**'Eglwys Annibynnol Y Priordy' Banc Lloyds
30-91-68**

Acc no: 00229403

neu ei osod mewn amlen a'i ddychwelyd i'n Gweindog neu Ysgrifennydd yr Eglwys neu ei roi yn y blwch casglu.



DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

**CAPEL BANCYFELIN
CAPEL CANA**

at gyhoeddi'r Ddolen y mis hwn

CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYDDIN

CWRDD CHWARTER

Dydd Iau 26 Tachwedd 2026

Capel y Priordy

**Y Gynhadledd am 10.30 / Cyfarfod y Prynhawn
am 1.30**

Yn y prynhawn bydd Oedfa Gymun pan dderbynnir ein Cadeirydd newydd, Brian Walters (E).



Gweddi dros Ddiodefwyr y Llifogydd yn Nepal a Tibet



**Ein Tad,
Gweddiwn dros bawb sydd wedi'u heffeithio gan y llifogydd dinistriol
yn Nepal a Tibet.**

**Amgylchyna'r rhai sydd wedi colli eu cartrefi,
eu hanwyliaid, eu bywoliaeth,
a'u hymdeimlad o ddiogelwch
â'th gysur a'th heddwch.**

Amddiffyn y rhai sy'n dal mewn perygl.

Cysura'r rhai sy'n galaru.

**Bendithia bawb sy'n gweithio'n ddiflino i achub,
ailadeiladu ac adfer bywyd.**

**Nertha'r timau achub a'r
gwasanaethau brys yn eu gwaith.**

**Bendithia pob ymdrech i ddarparu bwyd,
lloches a meddyginiaeth i'r rhai mewn angen.**

**Bydded i drigolion Nepal a Tibet
brofi nerth drwy undod,
ac i bob person sydd wedi'i effeithio
ddod o hyd i obaith a heddwch.**

**Yn enw Iesu Grist.
Amen**



**PANED A SGWRS
Gwesty'r Llwyn Iorwg
BORE MERCHER 18 TACHWEDD 2026 – 10.30
Paned a Sgwrs a Myfyrdod Byr
Croeso cynnes i bawb**




**PANED A SGWRS
FOX & HOUNDS
BORE IAU 5 TACHWEDD 2026 – 10.30
Paned a Sgwrs a Myfyrdod Byr
Croeso cynnes i bawb**



TUDALEN BLAEN

GANED Eliseus Williams 2 Mai 1867 ym Mhorthmadog. Ei enw barddol oedd Eifion Wyn. Prin oedd ei addysg ffurfiol ac eithrio yn yr Ysgol Sul. Bu'n ddisgybl-athro ac yn athro ysgol ddydd am gyfnod yn ei dref enedigol a hefyd ym Mhentrefoelas. Am dri deng mlynedd olaf ei fywyd bu'n glerc a chyfrifydd mewn swyddfa masnachwyr llechi ym Mhorthmadog. Roedd yn perthyn i'r Annibynwyr a bu'n bregethwr cynorthwyol yn ei enwad. Priododd ag Ann Jones, Abererch.



Roedd yn hyddysg yn llenyddiaeth ei genedl a meistrolodd y cynganeddion. Cyfansoddodd gryn lawer o farddoniaeth sy'n cael ei hadrodd, ei chanu a'i mwynhau. Bu'n cystadlu llawer mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol, gan ennill nifer o wobrwyon. Daeth yn un o feirdd mwyaf adnabyddus ei genedl. Gwnaeth enw iddo'i hun fel telynegwr pan gyhoeddwyd ei gyfrol Telynegion Maes a Môr. Roedd yn fardd cynhyrchiol a chyhoeddwyd sawl casgliad arall o'i waith, gan gynnwys un wedi'i farw. Roedd hefyd yn emynydd poblogaidd ac mae saith emyn adnabyddus o'i eiddo yn Caneuon Ffydd (164, 197, 213, 240, 503, 681 ac 844).

Cafodd ei anrhydeddu â gradd MA Prifysgol Cymru. **Bu farw 13 Hydref 1926, sef can mlynedd yn ôl i'r mis hwn.** Fe'i claddwyd ym Mynwent Chwilog. Cyhoeddwyd ei gofiant gan ei fab, Peredur Wyn Williams yn 1980. Eifion Wyn oedd testun darlith Tudur Dylan Jones yn y Gymdeithas Hanes yng Nghyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg eleni.

Ar y tudalen blaen, rydym yn dyfynnu'r pennill olaf ei emyn Dod ar fy mhen dy sanctaidd law (681) sydd mor gyfarwydd i ni i gyd. Mae Cydymaith i Caneuon Ffydd yn adrodd fel y bu'r emyn yn destun diwygio ac aralleirio ers ei gyhoeddi am y tro cyntaf yn 1921. Meddai'r Cydymaith hefyd: *Priodwyd yr emyn â'r dôn Sawley yn wreiddiol a bu'r briodas yn un gyfarwydd nes i dôn Euros Rhys Evans ymddangos yn rhaglen Cymanfaedd Canu 1977 y Bedyddwyr.*

DYMA'R emyn ar ei hyd:

Dod ar fy mhen dy sanctaidd law,
O dyner Fab y Dyn;
mae gennyf fendith i rai bach
fel yn dy oes dy hun.



Wrth feddwl am dy gariad gynt
o Fethlehem i'r groes
mi garwn innau fod yn dda
a byw er mwyn fy oes.

Gwna fi yn addfwyn fel tydi
wrth bawb o'r isel rai;
gwna fi yn hoff o wrando cwyn
a hoff o faddau bai.

Dod i mi galon well bob dydd
a'th ras yn fodd i fyw
fel bo i eraill drwof fi
adnabod cariad Duw.



Cartref Gofal Castell Tywi
(Upland Arms)

Gwasanaeth Diolchgarwch

Prynhawn Iau, 1 Hydref
am 2.00 o'r gloch
yng nghwmni Beti-Wyn.

Croeso i bawb

OEDFA DEULU'R PRIORDY MEDI 2026

CROESAWYD pawb yn gynnes iawn gan ein Gweinidog i oedfa deulu gyntaf y tymor newydd. Yn dilyn y cyhoeddiadau gan Elis Jones gwnaethpwyd y casgliad. Bu cyfle unwaith eto'r Sul hwn i gyfrannu at Apêl Cymorth Cristnogol i helpu'r trueiniaid hynny sy'n dioddef o ganlyniad i dirlithriadau a llifogydd Nepal. Y casglyddion oedd Nel, Cadi Wyn, Hedd, Aneurin, Noa a Greta.



Go brin y gellid fod wedi dewis thema fwy addas ar gyfer yr oedfa deulu hon. A ninnau erbyn hyn yn nhymor yr Hydref gyda'r dyddiau'n dechrau byrhau a hithau'n dechrau tywyllu'n gynharach gyda'r nos, mae rhywun yn gwerthfawrogi goleuni gymaint yn fwy.

Cawsom ein hatgoffa gan Gwydion, Nel, Alys a Mali o nodweddion goleuni – pethau a gymerwn yn rhy ganiataol mor aml – ac am bwysigrwydd goleuni yn y Beibl, a hynny o'r dechrau cyntaf, sef adeg y creu. Gwyddom yn dda fod Iesu'n galw ei hunan yn olau ond, fel yr esboniodd y plant, mae'n disgwyl i ninnau hefyd fod yn olau yn y byd. A dyna'r her sy'n ein hwybenu ar ddechrau tymor newydd yn hanes ein heglwys.

Cawsom weddi bwrpasol gan Greta, Aneurin a Cadi Wyn gyda'r pwyslais ar bwysigrwydd ein rhan fel Cristnogion i fod yn oleuni i eraill.

Hyfryd oedd gwrando ar y plant yn canu 'Mae ganddo'r byd mawr cyfan

yn ei law' a'r ffordd y cafodd geiriau'r penillion eu teilwra fel eu bod yn addas i sefyllfa'r Priordy a Chaerfyrddin a Chymru a'r Byd.



Cyflwynwyd yr emynau gan Hedd, Miriam a Brynmor – Dyro gân dan

fy mron (97), Cariad Crist sydd yn rhyfeddol (412) Emanwel, Emanwel (417), gyda Band y Priordy'n cyfeilio.

Cafwyd gair byr ac arbrawf cyffrous gan ein Gweinidog gan ddefnyddio kannwyll hud. Dangosodd nad oes modd diffodd fflam y gannwyll hon. Yn yr un modd ni ellir diffodd goleuni Iesu ychwaith. Dyma oleuni sy'n goleuo'r ffordd i bob un ohonom ar daith bywyd yn barhaus. Cydganwyd Y mae im Waredwr (416) i gloi'r gasanaeth.

Diolch i'r plant ac aelodau'r Band am eu gwaith graenus arferol ac i'n Gweinidog, athrawon yr Ysgol Sul a'r rhieni am y paratoi. Yn dilyn y gwasanaeth cynhaliwyd Cwrdd Eglwys. Derbyniodd y plant dasgau i'w cyflawni a bisgien yr un tra bo'r Cwrdd yn digwydd!

Yng Nghaerdydd fis Awst 2026, bu Cwmni Theatr yr Urdd yn llwyfannu Calon; sioe gerdd newydd sbon wedi'i seilio ar ganeuon eiconig Caryl Parry Jones. Roedd dros 100 o bobl ifanc o bob cwr o Gymru gamu yn cynryd rhan ar lwyfan Canolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd, gan gynnwys Miriam (P) (rhan o'r cast), Gwen (P) (aelod o'r band) a Tomos (P) (cefn llwyfan)



CWIS YR IDIOMAU CYMRAEG

Mae pob idiom yn dechrau gyda'r llythyren "B"
Llanwch y Bylchau! Rhwch gynnig arni! Ceisiwch
ddyfalu beth yw'r gair coll!

Pob lwc!!

Llanwch y Bylchau! Rhwch gynnig arni! Ceisiwch
ddyfalu beth yw'r gair coll!

Pob lwc!!

1	balm i'r ---
2	bardd talcen ---
3	beth sy'n ---
4	byth a ---
5	blaidd mewn croen ---
6	blingo'r gath hyd at ei ---
7	brathu ---
8	brensiach y ---
9	bwch ---
10	bwyta gwellt ei ---

Ffynhonnell – Geiriadur Idiomau - Alun Rhys Cownie

Atebion ar Dudalen 17

CYFRES YR EGLWYSI ANGHYFFREDIN

Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau

Eglwys Seyðisfjarðarkirkja, Gwlad yr Iâ



Gelwir Eglwys Seyðisfjarðarkirkja, Gwlad yr Iâ hefyd yn Bláa Kirkjan.

Eglwys fach o bren a glas ei lliw a godwyd yn 1922.

Fe'i lleolir ar ddiwedd stryd wedi'i phaentio fel enfys yn Seyðisfjörður, Dwyrain Gwlad yr Iâ.

Mae'n ganolfan grefyddol i'r gymuned Lwtheraidd leol.

Dros amser, mae wedi esblygu'n lle ar gyfer mynegiant artistig a cheir yno gyngherddau a pherfformiadau yn yr haf.

Mae'r eglwys yn agored i ymwelwyr yn yr haf a hefyd yn ystod y cyfnod pan fo llongau mordaith yn aros yn y porthladd yn Seyðisfjörður.

CINIO'R OFALAETH

Mwynhawyd cinio dydd Sul yr Ofalaeth yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg yn fawr iawn. Bwyd ardderchog a chwmni da. Diolch i aelodau Cana am drefnu



MAEN NHW'N BRYSUR IAWN YN YSGOL SUL ELIM!



Cymdeithas Chwiorydd Elim Ffynnonddrain

Rhaglen 2026 - 2027

6 Hydref	am 1.00 o'r gloch	Peter Hughes Griffiths
3 Tachwedd	am 11.00 o'r gloch	Helen Gibbon
1 Rhagfyr	am 12.00	Cinio Nadolig ym Mhentrecelyn
5 Ionawr	am 1.00	Gethin Thomas, Y Berllan
2 Chwefror	am 1.00	Winford Williams, fferm Lord's Park gynt
19 Mawrth	am 7.00	Noson Dathlu Gŵyl Dewi yng nghwmni Merched y Castell.

Cynhelir pob cyfarfod yn festri Elim oni noder yn wahanol.

Croeso i bawb

Cymdeithas Chwiorydd Elim

∞ *Ffynnon-ddrain* ∞



**Prynhawn Mawrth
6 Hydref**



**am 1.00 o'r gloch
yn y festri.**



Awr fach yng nghwmni

Peter Hughes Griffiths.



Paned i ddilyn.

Croeso i bawb

WYT TI'N COFIO? Can mlynedd yn ôl 1926

Ganwyd Jan Morris ar 2 Hydref 1926 yn Clevedon, Gwlad yr Haf, fel James Humphrey Morris. Daeth yn enwog ar ôl sgwennu am y




daith lwyddiannus i goncro mynydd Everest yn 1953 gan Syr Edmund Hillary a Sherpa Tenzing Norgay. Priododd James ei wraig Elizabeth ym 1949 a chawsant bump o blant. Buont yn byw yn Llanymstumdwy am dros hanner can mlynedd. Un o'r tri mab yw Twm Morris, awdur, bardd a llenor.. Yn 1972 cwblhaodd lawdriniaeth yn Casablanca i

newid ei ryw ac o hynny ymlaen bu'n byw fel menyw, fel Jan. Ysgarodd Jan ac Elizabeth ond arhosodd y ddau gyda'i gilydd. Ar 14 Mai 2008 'ailbriododd' y ddau ar ôl newid yn y gyfraith yn caniatáu cofrestrïadau cyfunrhyw. Parhaodd i ysgrifennu. Cynhyrchodd dros ddeugain o lyfrau ac ysgrifau yn ystod ei bywyd. Mae'n fwyaf adnabyddus am ei thriawd Pax Britannica, hanes Ymerodraeth Prydain, a phortreadau dinasoedd, yn enwedig Rhydychen, Fenis, Trieste a Dinas Efrog Newydd. Meddai'r Bywgraffiadur: *Trwy'r 1980au a'r 90au roedd ei hangerdd dros Gymru'n bwysicaf na dim. Ysgrifennodd am y wlad, ei thirwedd, ei hiaith, ei llên a'i diwylliant ar gyfer sawl cynhoeddiad ac mewn amryw lyfrau.* Fe'i dyrchafwyd yn aelod o'r Orsedd. Bu farw 20 Tachwedd 2020. Efallai bod rhai ohonoch wedi gwyllo'r portread personol ac unigryw ohoni gan ei mab, Twm Morys dan y pennawd Chwedi Jan Morris ar S4C yn ddiweddar.

Tri chwarter canrif yn ôl 1951

Rhyddhawyd y ffilm fer ffeithiol David fel cyfraniad Cymreig i Wyl Prydain. Mae'n seiliedig ar stori go iawn David Rees Griffiths (Amanwy). Cymerodd Amanwy ran flaenllaw yn y ffilm. Ganed Amanwy yn Efail y Betws, ger Rhydaman yn 1882. Bu'n lŵr ac yn ofalydd ysgol yn ystod ei fywyd. Roedd yn fardd a cholofnydd ac yn ddiagon yn Eglwys Gellimanwydd Rhydaman. Brawd iddo oedd y gwir Anrhydeddus



James Griffiths. Bu farw yn 1953. Meddai'r Bywgraffiadur amdano: 'Yr oedd ' Amanwy ' yn enghraifft wych o ddiwylliant gwerin ardal y glo carreg yn Sir Gaerfyrddin yn hanner cyntaf yr 20fed ganrif.' Mae tri emyn ganddo yn Caneuon Ffydd (26, 252, 390). Dyma bennill cyntaf un ohonynt (26) sydd yn Adran Mawl ac Addoliad y gyfrol:

**Dyrchafwn ganiad newydd,
O Arglwydd ger dy fron
am dy amddiffyn grasol
i'r demel annwyl hon:
deisyfwn unwaith eto
am olwg ar dy wedd
lle buost drwy'r blynnyddoedd
yn rhoi o rin dy hedd.**

**Hanner Can Mlynedd yn ôl
1976**



**Teithiodd y trênn cyflym iawn
InterCity 125 am y tro cyntaf rhwng
gorsaf drenau Abertawe a Llundain
Paddington ar 4 Hydref.**

**Chwarter Canrif yn ôl
2001**

**Cynhaliwyd gwasanaeth coffa Harry
Secombe yng Nghadeirlan Westminster ar 26
Hydref 2001. Ganed y canwr a'r comediwr yn
Abertawe 8 Medi 1921. Roedd yn ddarlledwr
radio a theledu amlwg iawn ac yn aelod o griw'r
Goon Show drwy gydol y 1950au. Yn hwyrach
yn ei fywyd bu'n cyflwyno Songs of Praise. Bu
farw 11 Ebrill 2001. Roedd ei frawd hŷn Fred
Secombe yn ficer ac awdur.**



PANED A SGWRS MIS MEDI YNG NGWESTY'R LLWYN IORWG



CODI BANER HEDDWCH Y TU ALLAN I NEUADD SAN PEDR



**Llongyfarchiadau i Heledd Defis (E) a Jonathan Gostling a
briodwyd yn Elim ar 12 Medi**



Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

ATEBION Y CWIS - MIS HYDREF

CWIS Y R IDIOMAU			
1	llygaid	6	chynffon
2	slip	7	tafod
3	bod	8	brain
4	beunydd	9	dihangol
5	dafad	10	gwely




Cartref Gofal
Plas Y Dderwen
 Tre Ioan

Gwasanaeth
Diolchgarwch

DYDDIAD NEWYDD

Prynawn Gwener
23 Hydref am 2.30
 yng nghwmni Beti-Wyn

Croeso i bawb

*"Diolch am y bendithion
yn ein bywydau"*



GAIR O DDIOLCH

Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd Apêl
 Glandeg.

Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr.





YSGOL BANCYFELIN

**Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch
yr ysgol yng Nghapel Bancyfelin**

Dydd Mercher 21 Hydref 2026 - 1.30

Croeso i bawb

Gŵyl Canol Dre 2026



Ifanc@Gofalaeth

Yr Ysgolion Sul



Mae'r Ysgolion Sul wedi ail-ddechrau. Pob hwyl i bawb yn ystod y tymor newydd! Tybed a oes gennych ffrind a fyddai'n hoffi ymuno â ni?

PIP

Mae PIP (Pobl Ifanc Priordy) wedi ail-ddechrau hefyd a rhai aelodau newydd sydd wedi symud i'r Ysgol Uwchradd! Croeso i chi gyd.

Diolchgarwch



Cofiwch am ein Cyrddau Diolchgarwch! Byddwn yn cyflwyno nwyddau ar gyfer y bancau bwyd lleol. Diolch

Dameg yr Heuwr

Adroddodd Iesu ddameg iddynt. Aeth ffermwr allan i hau hadau.



Wrth iddo wasgaru'r had, dyma beth ohono yn syrthio ar y llwybr. Cafodd ei sathru dan draed, a dyma'r adar yn ei fwyta.



Dyma beth ohono yn syrthio ar dir creigiog, ond wrth ddechrau tyfu dyma fe'n gwywo am fod dim dŵr ganddo.



A dyma beth yn syrthio i ganol drain. Tyfodd y drain yr un pryd a thagu'r planhigion.

Ond syrthiodd peth ohono ar bridd da. Tyfodd hwnnw, a rhoddodd gnwd oedd gan gwaith mwy na beth gafodd ei hau."

Ar ôl dweud hyn, galwodd allan yn uchel, "Gwrandwch yn ofalus os dych chi'n awyddus i ddysgu!"



Luc 8:4-8

Gweddi



Annwyl Dduw,
Diolch i Ti am Dy Air ac am ddysgu inni am yr heuwr.
Helpa ein calonnau i fod fel pridd da,
yn barod i wrando, dysgu a thyfu yn Dy gariad.
Helpa ni i fod yn garedig, yn gariadus ac yn ufudd bob dydd.
Amen.

R	F	E	R	H	B	Y	N	R	I	T	R	A	W
T	W	R	U	N	A	U	A	I	G	I	E	R	C
R	A	C	Y	C	A	D	W	R	R	R	H	R	Y
S	D	G	Y	N	Y	D	B	O	D	A	N	U	H
W	T	A	U	W	L	N	T	S	Y	Y	I	A	U
O	A	A	L	D	L	Y	D	Y	R	R	D	Y	Y
D	D	D	W	R	W	A	D	P	R	A	A	D	L
T	R	L	O	H	Y	D	N	R	U	I	T	D	T
H	A	Y	G	U	B	W	N	A	I	R	U	P	A
I	C	N	D	R	R	I	P	I	A	D	U	R	D
W	D	R	U	W	I	T	I	I	A	U	A	I	T
I	W	C	O	I	H	T	R	Y	S	R	W	D	Y
C	N	W	A	H	T	L	A	T	D	A	D	D	F
R	S	T	D	R	R	U	E	S	T	L	G	H	U

**Hoffech chi ddod i'r
Ysgol Sul?**

Plant o
11 flod

Ffrindiau
Ffynid
Hwyli

Doged
Cofed
Cwerau
Tyla
Cerynall

Mae croeso i chi ymuno â chriw


Cana Bancyfelin	Elim, Ffynnon-ddrain	Y Priory, Coerffraddin
am 1.30	am 10.00	am 10.00

PIF

PIF (Pobl Ifanc Priory –
oed ysgol uwchradd) yn cerdd
am 10.00 uwatha y mis.

Croeso cynnes i bawb!

Cysylltwch â Beth-Wyn: parchbetwynn@gmail.com



Beti
Wyn

Llongyfarchiadau i blant Ysgol Sul Elim a fu'n cystadlu yn Sioe Cynwil



GAIR ARALL AM SANT FFRANSIS

Cyfansoddodd San Ffransis o Assisi Gân yr Haul ‘Cantico di fratre sole’ yn 1225, un o’r gweithiau llenyddol cynharaf yn yr iaith Eidaleg. Cân grefyddol yw hon yn canmol a dathlu Duw trwy harddwch y creu. Mae efelychiad Cymraeg o’r gerdd gan T Gwynn Jones yn Caneuon Ffydd – Rhif 134: yn yr adran ar Dduw’r Creawdwr a’r Cynhaliwr, sef Popeth a wnaeth ein Duw a’n Rhi, sy’n seiliedig ar y fersiwn Saesneg o waith William Henry Draper (1855-1933).

Popeth a wnaeth ein Duw a’n Rhi,
cyfoded lef i’n canlyn ni’
i’r Arglwydd, Halelwia;
ti, danbaid haul, oleuni gwiw,
di, arian loer o dirion liw,
i’r Arglwydd, i’r Arglwydd, Halelwia,
Halelwia, Halelwia!

Fwyn ddaear-fam o ddydd i ddydd
i ni sy’n rhoi bendithion rhydd,
i’r Arglwydd, Halelwia;
dy ffrwyth, dy flodau o bob rhyw’
datganant hwy ogonint Duw,
i’r Arglwydd, i’r Arglwydd, Halelwia,
Halelwia, Halelwia!

A dweud pob dyn o fron ddi-frad
l ddwyn ei ran gan faddau’n rhad
i’r Arglwydd, Halelwia;
a wypo boen a galar dwys.
Molianned Dduw, rhoed arno’i bwys
i’r Arglwydd, i’r Arglwydd, Halelwia,
Halelwia, Halelwia!

Popeth a wnaed gan Luniwr byd
i’w foli doed ag isel fryd,
i’r Arglwydd, Halelwia;
boed mawl i’r Tad a’r Mab ei hun,
a mawl i’r Ysbryd, Dri yn Un,
i’r Arglwydd, i’r Arglwydd, Halelwia,
Halelwia, Halelwia!

RHAGHYSBYSIAD



THEATR CYMRU yn cyflwyno TE ANGLADD

10 Mawrth 2027 – Ffwrnes Llanelli

11 Mawrth 2027 – Yr Egin

Caerfyrddin

7.30pm

*Yn dilyn llwyddiant ysgubol Parti priodas,
mae Lowri ac Idris yn ôl mewn drama
newydd gan Gruffudd Owen*

Podlediad yr Ofalaeth

yn cynnwys

Oedfaon Digidol, Y Ddolen, Cyfweiliadau



Y cyfweiliad diweddaraf
Rhian Evans yn sgwrsio â
Pat Jones
Arweinydd Côr Eifionnydd



Dyma ail-ddychmygiad beiddgar
o glasur Islwyn Ffowc Elis sy'n
gofyn pa ddyfodol sy'n cael ei
greu gan ein heddiw?

FRÂN WEN yn cyflwyno

WYTHNOS YNG NGHYMURU FYDD

Dramodydd: Mared
Llywelyn

Nos Fawrth 13 Hydref 2026

7.30pm

Theatr y Lyric

Tocynnau: £20/£18.50

Addas ar gyfer 14+

Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin *Y Gymdeithas*

Dydd Mawrth, 20 Hydref 2026

Am 2.00 y prynhawn yn
FESTRI CAPEL HEOL AWST

Yng nghwmni y
Darpar Archdderwydd

TUDUR DYLAN
— TEULU PARCNEST —

♦ *Croeso cynnes i bawb* ♦



Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin

Apêl Hydref - Diolchgarwch.



Gwahoddir pawb i gyfrannu
eitem neu ddwy at y Banciau
Bwyd lleol fel rhan o'n Hapêl Hydref.



Bydd unrhyw gyfraniad, waeth pa mor fach,
yn cael ei werthfawrogi'n fawr ac yn gwneud
gwahaniaeth i bobl yn ein cymuned.

Diolch o flaen llaw am bob
caredigrwydd a chefnogaeth.



Eitem
neu ddwy
- yn gwneud
gwahaniaeth!
♥



RHO | CEFNOGI | GWNEUD GWAHANIAETH

Un cam bach....



Yn dilyn y newyddion erchyll am effaith y llifogydd dinistriol yn Nepal, penderfynodd y Parchgn. Siân Elin a Beti-Wyn (ar anogaeth Siân Elin!) wneud taith gerdded er mwyn tynnu sylw at Apêl Cymorth Cristnogol i Nepal.

Felly, ar brynhawn braf o Fedi, cychwynnodd y ddwy ar eu taith 10 cilomedr o amgylch Cronfa Ddŵr Llys y Frân, Sir Benfro. Roedd lefel y dŵr yn isel o ganlyniad i'r holl dywydd sych a wyneb y dŵr yn llonydd wrth i'r ddwy fwynhau cyfle i gerdded, myfyrio ac ystyried, gan oedi ar eu taith yn Eglwys Sant Meilyr ac wrth gofeb W Penfro Rowlands, awdur yr emyn-dôn Blaenwern.

Yn llonyddwch byd natur a chyda chân yr adar yn eu swyno ar eu taith, ni ellid peidio â meddwl pa mor wahanol yr oedd hi ar bobl Nepal yn dilyn y llifogydd.

Rhwng arian nawdd a chasgliadau arbennig yn y ddwy ofalaeth sydd o dan eu gofal – Gofalaeth Bro Cemaes Dyffryn Teifi a Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin, llwyddwyd i godi dros £1,600 i'r apêl. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogi, a diolch arbennig i aelodau'r ddwy ofalaeth am eu haelioni.

Gweddïwn y bydd i drigolion Nepal brofi nerth a dod o hyd i obaith a heddwch.

Arloesydd

Brian Jones, Bwydydd Castell Howell

*O'r fuches yn Nhrefechan,
o'i Sir Gâr i bedwar ban;
arwain wnaeth ein ffermwyr ni
ar laswellt gwyrdd arloesi.
Brian sy'n gwneud gwahaniaeth
a rhoi lle i'r cwsmer llaeth.*

*Ei freuddwyd ydoedd bwydydd
dweud ei ddweud am heriau'i ddydd,
un â'i law yng Nghymru'r wledd,
yr hedyn a'r brwdfrydedd;
yn y gair a'r gwneud ar goedd
gwerthiant sy'n un â gwerthoedd.*

*Ei ddyhead gweladwy
yw dirnad y farchnad fwy,
a'r cig eiconig o'r cwm
â'i ramant uwch ei breimiwm;
bob tro y Cymro i'r carn
ac wedyn un mor gadarn.*

*Daw â'i wên i'w waith bob dydd
a'i rhannu fel arweinydd,
pob storws a warws sy'n
atyniad o gyd-dynnu,
a storfa a swyddfa sydd
yn aelwyd rhwng y welydd.*

*Cerbydau'n cario bwydydd,
olwynion yn don bob dydd,
ei enw e' ddydd a nos
a'i logo ar hewl agos,
ar lôn hir o rywle'n hel
daw llewyrch Castell Howell.*

Geraint Roberts



Cafodd Geraint Roberts glod uchel am ei gywydd i Brian Jones yn Eisteddfod y Garreg Las. Diolch iddo am ganiatad i'w gyhoeddi yn Y Ddolen a diolch eto i Peter Hughes-Griffiths am dynnu'n sylw at hyn.

BORE COFFI MACMILLAN

Roedd Neuadd Clwb Rygbi'r Cwins Abergwili yn llawn hyd yr ymylon fore Gwener 25 Medi ar gyfer ein bore coffi blyneddol i gefnogi MacMillan. Wedi 15 mlynedd o drefnu a chodi milloedd o bunoedd, cafodd Alison Parsons seibiant o drefnu eleni. rhannwyd y gwaith o drefnu rhwng eglwysi'r Ofalaeth. Roedd Cana a Bancyfelin yn gyfrifol am weini'r te a'r coffi, Heol Awst ac Elim y stondin gacennau a'r Priordy 'r raffl. Roed stondin arbennig yno hefyd yn gwerthu Cennin Pedr y Gweinidog a baratowyd gan Beti-Wyn! Hyfrydwch oedd cael cwmni'r Cynghorydd Luned Thomas, Dirprwy Faer Caerfryddin yn ein plith. Canlyniad ein hymdrechion oedd codi £1,100 i Macmillan. Ymdrech rhagorol.

Diolch i bawb



Rhagor o luniau ar Dudalen 34

YSGOL SUL CANA AR WAITH!



Y diweddar Lloyd Thomas (Heol Awst)

Gyda thristwch y clyswom am golli Lloyd a fu farw'n dawel ar ei aelwyd yn Nantyrarian ar 4 Medi 2026.

Un o Gwyddgrug, Pencader yn wreiddiol oedd Lloyd, ond rydym yn ei gysylltu ef a Sheila â Chaerfyrddin gan iddynt hen fwrw eu gwreiddiau yn y dref hon.

Cafodd Lloyd yrfa lwyddiannus iawn gyda'r GPO ac yna BT, a daeth yn rheolwr y *depot* yng Nglangwili, ac wedi ymddeol bu'n gweithio am nifer o flynyddoedd yng Ngholeg y Drindod.



Roedd wrth ei fodd allan yn yr awyr agored, ac yn medru troi ei law at bach o bopeth.

Roedd ganddo gylch eang o ffrindiau ac yn uchel ei barch gan ei gymdogion a'i gydweithwyr.

Roedd yn falch iawn o lwyddiant eu mab Noir, ac wrth ei fodd yn ymweld â'r teulu yn y gogledd a threulio amser yng nghwmni ei ddwy wyres Eleri a Gwennan a'i ferch yng nghyfraith Claire.

Bu'n dioddef o anhwylderau lu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ond llwyddodd, drwy'r cyfan, i ddal ati a byw bywyd mor llawn â phosib er gwaetha'r cyfyngiadau a oedd arno oherwydd ei gyflwr.

Daeth ei deulu a'i ffrindiau agos ynghyd i Amlosgfa Parc Gwyn, Arberth fore Llun 21 Medi i oedfa i gofio a diolch am ei fywyd. Roedd yr angladd yn gwbl breifat a di-ffws yn ôl ei ddymuniad. Gwasanaethwyd gan ei Weinidog.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Sheila, ei gyfar oes am dros 60 mlynedd, Noir ei fab a'r teulu, ei frodyr Dilwyn a Ronald a'r cysylltiadau teuluol i gyd.

Boed iddo orffwys mewn hedd

Ein Gweinidog

Y ddiweddar Bet Jones (Elim)

Gyda thristwch mawr y clywsom am golli Bet a fu farw yn ddisymwth ar ei haelwyd ar 19 Awst 2026. Mae ei cholli wedi bod yn siom ac yn ergyd fawr i ni i gyd.

Yn enedigol o Wynfe, magwyd Bet yn Nhalylychau. Daeth i Gaerfyrddin wedi cyfnod yn byw ym Mronwydd ac ymaelododd ag Elim.



Roedd gan Bet ddoniau arbennig iawn ac fe'u defnyddiwyd er mwyn dod â llawer o lawenydd i fywydau cymaint o bobl eraill.

Cofir amdani'n canu yn yr Hwyrnos yng Nglansevin, ac yn rhan o'r grŵp Dwy a Dime. Bu'n aelod o Gôr Telynau Tywi ac yn fwy diweddar roedd yn aelod ffyddlon o Gôr Tonic yng Nghaerfyrddin. Ond byddai'r mwyafrif oedd ddim yn 'nabod Bet yn bersonol yn ei 'nabod o Pobol Y Cwm. Bu'n rhan o'r gyfres am 41 o flynyddoedd.

Rydym yn ddiolchgar i Bet yn bennaf yn yr ardal hon am sefydlu Adran yr Urdd, Ffynnon-ddrain sydd wedi rhoi profiadau gwerthfawr i genedlaethau o blant ac sy'n mynd o nerth i nerth.

Ond i ni yn Elim, roedd Bet yn ddiagon annwyl a gyfrannodd yn fawr, drwy ei ffyddlondeb a'i hamrywiol ddoniau, at fywyd yr eglwys. Trwy ei ffydd dawel, ei charedigrwydd a'i hymroddiad, gadawodd argraff na fydd yn hawdd ei dileu. Er nad yw ei sedd yn cael ei llenwi bellach a bod ei llais yn dawel, erys ei chof yn ein plith. Diolchwn i Dduw am ei bywyd, am yr hyn a roddodd i eraill, ac am y blynyddoedd a gafodd eu rhannu gyda hi.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Rhydian, Nia ac Ifan a'r cysylltiadau teuluol eraill.

Roedd Capel Elim yn llawn hyd yr ymylon ar ddydd Gwener, 4 Medi pan ddaeth cyfeillion o bell ac agos ynghyd i'w chofio. Roedd yr oedfa yng ngofal ei Gweinidog gyda'r Parchg Tom Defis a Gwyn Elfyn yn cynorthwyo. Rhoddwyd Bet i orffwys ym mynwent Eglwys Talylychau.

"Gwyn eu byd y rhai pur o galon, oherwydd cânt hwy weld Duw"

Ein Gweinidog

COFIO BET



Roedd mwynder Talylychau ynot ti,
A bwrlwm ein diwylliant yn dy fod,
Dy gân wnest wastad rannu gyda ni,
A ninnau wrth ein boddau'n canu'th glod.
Mae sbri Glansevin a'r Hwyrnosau braf
A dyddiau Dwy a Dime oll yn stôr,
Ac er na 'fendiaist ti pan ddaeth yr haf,'
Mawrygwn dy ffyddlondeb i bob côr.
A'r hen gitâr 'na sydd yn hollol fud,
A'n Plygain heb dy garol cyn yr Ŵyl;
Os gwag dy sedd yn Elim nawr o hyd
Ac Adran Ffynnon-ddrain heb fawr o hwyl,
Dy gofio wnawn, yr annwyl fwndel bach,
Dy gwmni llon, dy wên a'th chwerthin iach.

Peter Hughes Griffiths





EIN cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddylw'n yn arbennig y mis hwn am Tomos Morgans (P), Morwen Thomas (B), Huw Jenkins (C) ac Emyr Wyn Thomas (C). Cofion annwyl atoch i gyd.

Ar Newyddion BBC1 dros Wyl y Banc, bu eitem ar gan niwrnod cyntaf Llywodraeth newydd Cymru ar Newyddion Deg ar BBC1. Cafodd grŵp o bobl, gan gynnwys Huw Michael (P) a oedd yn hanner canfed Sioe Flodau a Llysiau Flynyddol Cymdeithas Dahlias Gorllewin Cymru ym Montargothi gyfle i fynegi barn am yr hyn a gyflawnwyd.

Bu'r Dr Llinos Roberts (P) ar raglen Bore Cothi ar Radio Cymru yn trafod symptomau Diabetis Math 1 yn dilyn y profiad a ddaeth i ran Olwen, un o'r plant yn ddiweddar. Diolch iddi am rannu'r profiad â ni ac am egluro'r symptomau i ni. Fel y dywedodd, mae stori Olwen yn ein hatgoffa mor bwysig yw hi i fod yn wyladwrus o'r arwyddion cynnar rheiny a sut y gall adnabod y symptomau mewn da bryd wneud gwahaniaeth enfawr i fywyd rhywun. Rydym yn falch o glywed fod Olwen yn rheoli'r cyflwr ac mewn hwyliau da. Mae'r hanes yn llawn ar bbccymrufyw.



Bu Gareth Jones (P) yn trafod gobeithion CPD Dinas Abertawe y tymor hwn yn y Bencampwriaeth ar Newyddion S4C.

Achlysur hyfryd oedd bedydd Ellie-Anne Ann-Marie, merch Ceri Ann a Luke yn Elim. Pob bendith ar y teulu bach.



Llongyfarchiadau i Osian Hayes (P) am gael ei ddewis i gynrychioli Ysgol Maes y Gwendraeth ar y prosiect 'Lessons from Auschwitz' gyda'r Holocaust Educational Trust. Bydd yn ymweld ag Auschwitz-Birkenau ac yn cynnal prosiect yn yr ysgol.

Llongyfarchiadau mawr i Briall Dyfri (HA) ar raddio mewn niwrowyddoniaeth o Brifysgol UCL

Llongyfarchiadau i Catrin (E) a lolo ar enedigaeth Buddug Non, Chwaer fach i Guto a wyres newydd i Brian a Ann Walters.





Llongyfarchiadau i Manon Ifan a Guto ar enedigaeth Onw Steffan, ŵyr cyntaf i Aled a Margaret Evans (P).

Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Tachwedd i'n Gweinidog neu Alun Charles

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â'r canlynol sydd wedi colli anwyliad yn ddiweddar:

Iwan Griffiths (P), Aneurin a Brynmor ar farwolaeth mam-gu Iwan a hen fam-gu'r pant, Joan Davies, Aberteifi

Heulwen a Ken Thomas (C) ar farwolaeth brawd Heulwen sef John Williams, Salem, Felindre.

Eirlys Davies ac Enid Lewis (P) ar farwolaeth eu cyfnither, Janet Morgan o Gapel Dewi.

Meddyliwn amdanoch oll yn eich colled a'ch hiraeth.

RHAGOR O FORE COFFI MACMILLAN



DYLETSWYDDAU HYDREF / TACHWEDD

BANCYFELIN

Gofalwr Hydref - Meinir Walters

Gofalwr Tachwedd - Eirian Thomas

Cyhoeddwr Hydref - Joanne Richards

Cyhoeddwr Tachwedd - Margaret Evans

Organydd Hydref - Trefina Jones

Organydd Tachwedd - Carwen Howells

Blodau:

Hydref 11, 15 & 25 - Meinir Walters

Tachwedd 8 - Eirian Thomas

Tachwedd 22 - Elisabeth Thomas

Ymwelwyr Medi/Hydref: Gwyneth Griffiths a Meinir Walters

Ymwelwyr Tachwedd/Rhagfyr : Joanne Richards a Moyra Howells

CANA

Gofalwr Hydref – Ken Thomas

Gofalwr Tachwedd – Hugh Jones

Cyhoeddwr- Marlene Jones

Organydd – Mair Jones

Blodau:

Hydref 4 - Non James

Hydref 7 - Non James

Hydref 18 - Bet Jones

Tachwedd 1 - Rhian Bowen

Ymwelwyr Medi/Hydref: Rhian a Meurig Bowen, Bet a Kendrick Jones

Ymwelwyr Tachwedd/Rhagfyr: Hugh ac Ann Jones, Mair Jones

ELIM

Cyhoeddwr: Brian Walters

Blodau:

Hydref 4 - Anona Davies

Hydref 18 - Pat Davies

Tachwedd 1 - Amy Evans

Gosod y Bwrdd Cymun:

Hydref 4 - Amanda Rees Davies

Tachwedd 1 - Ann Walters

Ymwelwyr Medi/Hydref - Yr aelodau

HEOL AWST

Cyhoeddwr - Nigel George
Ymwelwyr Medi/Hydref - Yr aelodau
Cyfeilydd:

Hydref - Olga Williams
Tachwedd 8 - Olga Williams
Tachwedd 22 - Llio Dyfri Jones

Dyletswyddau'r Sul:

Hydref - Ernest Jones a Dave Thomas
Tachwedd - Alun ac Olga Williams

Y PRIORDY

Gofalwr Hydref - Meleri Llwyd O'Leary

Gofawr Tachwedd - Jayne Woods

Gwresogwr Hydref - Philip Jones

Gwresogwr Tachwedd - Huw Jones

Cyhoeddwr Hydref - Tim Hayes

Cyhoeddwr Tachwedd - Dennis Jones

Gosod y Bwrdd Cymun

Hydref 4 (Hwyr) - Llinos Jones ac Elinor Wyn

Tachwedd 1 (Bore) - Mwynwen Jones a Thelma Evans

Darllenwyr:

Hydref 4 - Y Plant (Oedfa Deulu)

Hydref 11 - Gareth Gravell

Hydref 18 - Meleri Llwyd O'Leary

Hydref 25 - Emlyn Schiavone

Tachwedd 1 - Y Pant (Oedfa Deulu)

Ymwelwyr Medi/Hydref - Y Gweinidog

Ymwelwyr Tachwedd / Rhagfyr - Catrin Heledd Jones,
Betsan James, Eirlys Davies a Margaret Lloyd Evans

Blodau:

Hydref 4 - Meinir Jones

Hydref 11 - Meinir Jones

Hydref 18 - Enid Lewis

Hydref 25 - Heol Awst

Tachwedd 1 - Gloria Evans

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Athrawon yr Ysgol Sul a Brian Davies am
y lluniau'r mis hwn.



CYFARFODYDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR EIN GOFALAETH			
BANCYFELIN	Nos Fawrth 23 Chwefror 2027	7.00	Y Festri
CANA	Prynhawn Iau 18 Chwefror 2027	1.30	Y Festri
ELIM	Bore Mercher 17 Chwefror 2027	11.00	Y Capel
HEOL AWST	Prynhawn Mercher 17 Chwefror 2027	2.00	Y Festri
Y PRIORDY	I'w drefnu		

Llawenydd i bawb yn Elim oedd derbyn Julia yn aelod yn yn yr oedfa Gymun 5 Medi 2026. Croeso atom a chroeso nôl i'ch mam eglwys





SULIADUR HYDREF - TACHWEDD 2026



DYDDIAD	10.00	11.30	1.30	3.00	5.00 oni noder yn wahanol
Hydref 4	Priordy Oedfa Deulu Diolchgarwch Gweinidog	Elim © + HA Oedfa Deulu Diolchgarwch Gweinidog	Cana © Gweinidog		Priordy© Diolchgarwch Gwir Barchg Dorrien Davies Gweinidog
Hydref 7 (Mercher)					Cana 7.00 Diolchgarwch Parchg Jean Voyle Williams Gweinidog
Hydref 11	Priordy Gweinidog		Bancyfelin © Oedfa Deulu Diolchgarwch Gweinidog	Heol Awst © Diolchgarwch	
Hydref 15 (Iau)					Bancyfelin 7.00 Diolchgarwch Tudur Dylan Jones Gweinidog
Hydref 18	Priordy Gweinidog	Elim (+HA) Gweinidog	Cana Oedfa Deulu Diolchgarwch Gweinidog		
Hydref 25	Heol Awst (+E, HA &P) Aelodau		Bancyfelin (+C) Aelodau		
Tachwedd 1	Priordy © Oedfa Deulu Gweinidog	Elim © (+HA) Gweinidog	Cana© Gweinidog		

Amserlen yr Ysgolion Sul – Medi 2026



	CANA	ELIM	Y PRIORDY
4 Hydref	Dim YS	Oedfa Ddiolchgarwch	Oedfa Ddiolchgarwch
11 Hydref	YS	YS	YS
18 Hydref	Oedfa Ddiolchgarwch	YS	YS a PIP
25 Hydref	Dim YS	Dim YS	Dim YS

Y Samariaid yng Nghymru: Ffoniwch 116 123

Tir Dewi: Ffoniwch 0800 121 4722

Anxiety UK: Ffoniwch 03444 775774

CALM: Ffoniwch 0800 585858

Mind: Ffoniwch 0300 123 3393

No Panic: Ffoniwch 0844 967 4848

Bereavement: Ffoniwch 0800 068 4141

Abuse: Ffoniwch 0808 2000 5000

Refuge: Ffoniwch 0808 200 0247

DPJ, Rhannwch Y Baich – 0800 587 4262

neu'r linell neges destun – 07860 048 799



	BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYD Y PRIORDY <i>Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da</i>
---	--

Cyrddau Diolchgarwch 2026

Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin



**** Priordy**

Sul 4 Hydref.

Oedfa Deulu am 10.00

Oedfa am 5.00. Pregethwr gwadd:

Y Gwir Barchg Dorrien Davies, Esgob Tyddewi

Swper i ddilyn



**** Elim**

Sul 4 Hydref

Oedfa Deulu am 11.30

Paned i ddilyn



**** Cana**

Sul 18 Hydref

Oedfa Deulu am 1.30

Mercher, 7 Hydref. Oedfa am 7.00.

Pregethwr gwadd: *Y Parchg Jean Voyle Williams*

Swper i ddilyn



**** Heol Awst**

Sul 11 Hydref, Oedfa am 3.00

gyda Beti-Wyn a'r aelodau.

Paned i ddilyn



**** Bancyfelin**

Sul 11 Hydref Oedfa Deulu am 1.30

Iau, 15 Hydref. Oedfa am 7.00.

Pregethwr gwadd: *Tudur Dylan Jones*

Croeso cynnes i bawb i'r oedfaon

